office of the independent adjudicator

# Fframwaith Arfer Da

## Tuedd a chanfyddiad o duedd

1. Tuedd yw gogwydd i drin un person neu grŵp, gwrthrych neu safbwynt, yn fwy neu'n llai ffafriol nag un arall, yn enwedig mewn ffordd a ystyrir yn annheg. Gall tuedd fod yn fwriadol, ond gall fod yn anfwriadol hefyd.

2. Mae gan ddarparwyr ddyletswydd i weithredu'n deg, sy'n golygu y dylai'r broses o wneud penderfyniadau fod yn ddiduedd ac y dylid ei gweld yn ddiduedd.

3. Mae angen i ddarparwyr gymryd camau i osgoi tuedd wirioneddol a chanfyddiad rhesymol o duedd. Dylent ystyried a allai cyfranogiad unigolyn penodol, yn fwriadol neu'n anfwriadol, effeithio ar degwch y penderfyniad, neu y gallai'r myfyriwr yn rhesymol feddwl bod hynny'n digwydd. Er enghraifft, mae'n bosib y bydd gan fyfyriwr bryderon na allai aelod o staff adolygu'n annibynnol unrhyw benderfyniad a wnaed gan ei reolwr.

4. Mae'n egwyddor sylfaenol o degwch na ddylai neb fod yn farnwr ar eu gweithredoedd eu hunain. Rhaid i ddarparwyr ystyried tuedd yn achos y rhai sy'n gwneud penderfyniadau ac ymchwilwyr. Rhaid i fyfyrwyr fod yn hyderus y bydd tystiolaeth yn cael ei chasglu'n deg, ac y bydd ymchwilydd yn chwilio am wybodaeth sy'n cefnogi'r naill ochr a'r llall o ddadl.

5. Credwn na ddylai ymchwilwyr a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau fod wedi ymwneud â'r materion sy'n cael eu hystyried yng nghwyn neu apêl myfyriwr o'r blaen. Nid yw hyn yn golygu bod yn rhaid i bob aelod o staff sydd wedi cael unrhyw gysylltiad â'r myfyriwr o'r blaen gael ei eithrio o'r broses - mewn rhai achosion mae'n bosib y bydd aelodau staff sy'n ymwneud â'r gŵyn neu'r apêl yn gallu helpu i'w datrys yn gynnar. Mae'n bosibl y bydd gan bobl sydd wedi bod yn gysylltiedig â'r achos yn ystod cam blaenorol hefyd rôl mewn darparu gwybodaeth neu dystiolaeth i'r ymchwiliad neu'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau.

6. Fodd bynnag, lle bynnag y bo hynny bosib, ni ddylai darparwyr benodi fel ymchwilwyr neu'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau staff sydd:

   - wedi ymwneud yn uniongyrchol â darparu'r gwasanaeth y cwynwyd amdano;
   - wedi ymwneud yn uniongyrchol â'r asesiad sy'n destun apêl academaidd;
   - wedi ymchwilio'n flaenorol neu wedi dod i benderfyniadau ar gwynion neu apeliadau gan y myfyriwr unigol, neu faterion disgyblu neu addasrwydd i ymarfer yn ymwneud â'r myfyriwr;
   - wedi bod yn destun cwyn ffurfiol gan y myfyriwr yn flaenorol;
   - â chysylltiad personol agos â'r myfyriwr neu â phobl eraill sy'n ymwneud â'r gŵyn neu'r apêl;
   - â buddiannau personol yn ymwneud â chanlyniad unrhyw benderfyniad a wneir.

7. Weithiau efallai na fydd yn bosibl penodi ymchwilydd neu rywun i wneud penderfyniad nad oedd yn ymwneud ag achos y myfyriwr yn flaenorol. Gallai hyn fod oherwydd bod y myfyriwr wedi gwneud nifer o gwynion neu apeliadau blaenorol, neu fod gan y darparydd nifer fach o aelodau staff y gall droi atynt. O dan yr amgylchiadau hyn, dylai'r darparydd ystyried yn ofalus beth yw'r ffordd orau o sicrhau bod gan y myfyriwr hyder yn y broses ymchwilio a gwneud penderfyniadau. Er enghraifft, gallai'r darparydd siarad â'r myfyriwr am yr hyn a fyddai'n ei helpu i fod â hyder yn y broses, neu gallai ddod â rhywun annibynnol i oruchwylio'r ymchwiliad neu fynychu panel gwneud penderfyniadau.

8. Mewn rhai amgylchiadau, er enghraifft, pan fydd myfyriwr wedi darparu gwybodaeth newydd, mae'n briodol gofyn i'r unigolyn neu'r panel sy'n gwneud penderfyniadau a fyddai'r wybodaeth newydd wedi gwneud gwahaniaeth i'r penderfyniad. Ond ni fydd hyn yn briodol os oes pryder neu gŵyn am y ffordd yr ymdriniodd y rhai a wnaeth y penderfyniad blaenorol â'r achos neu ynghylch yr hyn maen nhw wedi'i wneud, neu os oedd y penderfyniad blaenorol yn ymwneud â hygrededd y myfyriwr.

9. Mae'n arfer da rhoi cyfle i fyfyrwyr godi pryderon am yr unigolion sy'n adolygu eu hachos cyn gynted â phosibl, fel y gall y darparydd ystyried a oes gan y myfyriwr sail resymol dros ei bryderon.

10. Weithiau mae angen cymryd camau i ddileu neu leihau rhwystrau a allai fod yn ei gwneud yn anos i rai myfyrwyr gael mynediad at broses neu wasanaeth. Er enghraifft, mae angen i ddarparwyr wneud addasiadau rhesymol i gynorthwyo myfyrwyr anabl i gael mynediad at ddysgu, cyfleusterau a phrosesau, a gallai hyn olygu bod y myfyrwyr hynny'n cael eu trin yn fwy ffafriol nag eraill. Nid yw trin pawb yn deg bob amser yn golygu trin pawb yr un fath. Nid yw dileu rhwystrau sy'n effeithio ar rai myfyrwyr yr un peth â thuedd.

**Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol ar gyfer Addysg Uwch**

office of the independent adjudicator

Second Floor Abbey Wharf
57-75 Kings Road
Reading
Berkshire
RG1 3AB

0118 959 9813
enquiries@oiahe.org.uk
oiahe.org.uk

**Diweddarwyd Rhagfyr 2022**